CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau | Dyddiad: | Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD LLUN, 16 GORFFENNAF 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL PWYLLGOR 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN I – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 14eg Mehefin 2012 (copi'n amgaeëdig).

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraffau 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**5 DYRANNU ADNODDAU YCHWANEGOL I ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG MEWN YSGOLION CYNRADD** (Tudalennau 17 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyllid Addysg (copi'n amgaeëdig) yn manylu'r cynnydd ar adolygu dyrannu adnoddau ychwanegol i Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn Ysgolion Cynradd.

**9.35 a.m.**

**RHAN I**

**6 ADOLYGU GWASANAETHAU DYDD YNG NGOGLEDD Y SIR** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (copi'n amgaeëdig) yn rhoi diweddariad ar adolygu Gwasanaethau Dydd yng Ngogledd y Sir, ac yn cynghori ar yr opsiwn a ffefrir er mwyn darparu gwasanaethau yn y dyfodol, ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

**10.10a.m.**

**TORIAD**

**7 PROSIECTAU SEILWAITH MAWR: DYRANNU ADNODDAU AC YMGYSYLLTU A' R GYMUNED** (Tudalennau 31 - 50)

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Cynllunio: Cynlluniau Egni Adnewyddadwy (copi'n amgaeëdig) sy'n ceisio arweiniad ar y lefel o ymgysylltu cymunedol ac adnoddau ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.

**10.50 a.m.**

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

## 8 DYRANNU CRONFA AELODAU ARDAL (Tudalennau 51 - 60)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol (copi'n amgaeëdig) sy'n rhoi trosolwg ar y cyllid a ddyrannwyd i alluogi i Grwpiau Aelodau Ardal gefnogi prosiectau blaenoriaeth yn eu hardaloedd ac yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu llwyddiant y gronfa.

**11.25 a.m.**

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 61 - 80)

Ystyried adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor i'r dyfodol ac yn diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.05p.m.**

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy-Davies
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James
Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Eitem Rhif Agenda 5 yn unig)**

Ms C. Burgess
Mrs. G. Greenland
Ms. D. Houghton
Dr. D. Marjoram

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin, Dydd Iau, 14 Mehefin 2012 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr James Davies, Peter Arnold Evans, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Win Mullen-James, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Corporate Director: Customers (HW), Head of Planning, Regeneration and Regulatory Services (GB), School Effectiveness Performance Officer: Secondary (JM), Section Manager: Passenger Transport (PD), Senior Community Safety Enforcement Officer (TWE), Housing Strategy Manager (SK), Housing Strategy Officer (SL), Scrutiny Coordinator (RE) and Administrative Officer (CW).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd C. Guy-Davies and C. Burgess, D. Houghton, D. Marjoram (Aelodau Cyfetholedig). Esboniwyd bod y Cynghorydd C Guy-Davies wedi cael ei phenodi yn un o gynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i bod wedi'i gwahodd i fynychu'r diwrnod sefydlu cyn ei Gyfarfod Blynyddol, ac felly'n methu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd T.R. Hughes ynghylch yr angen i Aelodau Cyfetholedig fynychu'r tri Pwyllgor Craffu a oedd yn trafod eitemau yn ymwneud â materion addysg.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau bod y Cyngor wedi cytuno ar y newidiadau i'r strwythur craffu ac y byddai adolygiad pellach o'r system yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn Gyngor hon. Er mwyn ceisio ymdrin â'r broblem, cadarnhaodd y byddai eitemau yn ymwneud â materion addysg yn cael eu gosod ar ddechrau'r agenda. Amlinellodd y Cydlynydd Craffu rôl y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu mewn perthynas â chydlynu'r Rhaglenni Gwaith y Pwyllgor Craffu gwahanol a oedd yn cynnwys ystyried eitemau yn ymwneud â materion addysg. Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n cyfleu'r pryderon a fynegwyd gan Aelodau i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

**2 PENODI IS-GADEIRYDD**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnwyd am CV/datganiadau gan y sawl oedd â diddordeb yn swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor. Derbyniwyd CV gan y Cynghorydd H.O. Williams cyn y cyfarfod a chafodd ei ddosbarthu i'r holl Aelodau. Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Williams ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor. Derbyniwyd ail enwebiad yn cyfarfod i'r Cynghorydd W. Mullen-James a

chytunodd y Pwyllgor y dylid derbyn ac ystyried yr enwebiad er na dderbyniwyd CV/datganiad o flaen llaw. Eiliwyd enwebiad y Cynghorydd Mullen-James.

Rhoddodd y Cynghorwyr W. Mullen-James a H.O. Williams gyflwyniadau i'r Pwyllgor, yn amlinellu eu rhinweddau a'u priodweddau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor i'r flwyddyn sydd i ddod. Yn dilyn pleidlais gudd:-

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid penodi'r Cynghorydd H.O. Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r flwyddyn sydd i ddod.*

## 3 DATGAN DIDDORDEB

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes.

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar Ddydd Mawrth, 12 Ebrill, 2012.

Dywedodd y Cydlynydd Craffu wrth yr Aelodau bod Atodiad 4 i'r Rhaglen Waith Craffu yn cynnwys gwybodaeth ar hynt y penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Materion yn codi:-

6. Diweddariad Ymgysylltu Cymunedol – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd P.A. Evans, esboniodd y Cydlynydd Craffu bod y cais yn ymwneud â'r mapiau ffiniau wedi'i drosglwyddo at yr Arolwg Ordnans ar gyfer ei newid.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 6 ARCHWILIAD ADDYSG GYMUNEDOL OEDOLION ESTYN

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Perfformiad Effeithlonrwydd Ysgol: Uwchradd wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Swyddog Perfformiad Effeithlonrwydd Ysgol: Uwchradd grynodeb o'r adroddiad a oedd yn manylu ar ganfyddiadau Archwiliad Estyn o Bartneriaeth

Addysg Gymunedol Oedolion Conwy a Sir Ddinbych (Cyswllt Dysgu). Mae'r pwyntiau pwysig a amlinellwyd yn yr adroddiad yn cynnwys:-

- Roedd Estyn wedi ceisio ateb y tri chwestiwn allweddol canlynol drwy ddadansoddi'r hunan-arfarniad, y data perfformiad, yr arsylwadau gwersi a chyfarfodydd â rhanddeiliaid:
  (i) Pa mor dda yw'r canlyniadau
  (ii) Pa mor dda yw'r ddarpariaeth
  (iii) Pa mor dda yw'r arwain a'r rheoli
- Barnwyd fod pob un o'r tri chwestiwn yn dda. Rhoddwyd barn gyffredinol hefyd ar berfformiad cyfredol y bartneriaeth gyda'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn rhagorol.
- Roedd adroddiad Arolygiad Estyn yn amlygu'r lefelau gallu a gyflawnwyd gan ddysgwyr o wahanol gefndiroedd a grwpiau oed.
- Nid oedd digon o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg wedi defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da yn gyfrwng dysgu neu ar gyfer asesu eu cynnydd.
- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella eu hyder drwy gymryd rhan mewn dysgu, ac o ganlyniad yn gallu rheoli eu bywydau a chefnogi eu plant yn well.
- Roedd yr addysgu'n dda neu'n well yn y rhan fwyaf o sesiynau a arsylwyd gan y tîm arolygu.

Roedd Arweinwyr y Bartneriaeth wedi darparu arweinyddiaeth dda gydag Arweinwyr yn cydweithio'n dda ag ystod eang o Grwpiau allweddol eraill. Roedd gan y bartneriaeth drefniadau da ar gyfer hunanasesu, gydag amcanion ac amserlenni clir ac roedd Estyn yn ystyried bod y gwaith partneriaeth yn ardderchog ac wedi gwella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ac ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Nododd y Pwyllgor argymhellion Estyn, sef i sicrhau gwelliant pellach byddai'n rhaid i'r bartneriaeth:-

(i) gynyddu nifer y dosbarthiadau a'r gweithgareddau dysgu lle mae dysgwyr yn cyflawni safonau rhagorol yn eu gwaith.
(ii) cynyddu'r addysgu a'r asesu rhagorol.
(iii) hyrwyddo dull cyffredin o ddiogelu i godi safon polisïau a gweithdrefnau holl aelodau'r bartneriaeth, a
(iv) hyrwyddo a gwella'r modd y defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu er mwyn dysgu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Ms G. Greenland ynglŷn â monitro'r broses cydweithredu rhwng Awdurdodau, esboniodd y Swyddog Perfformiad Effeithlonrwydd Ysgol: Uwchradd y byddai Grŵp Gweithredol y Bartneriaeth yn derbyn adroddiadau o'r Is-Grwpiau. Byddai'r Awdurdod Lleol yn monitro cynnydd, ansawdd y cyrsiau a nifer myfyrwyr drwy Gytundebau Lefel Gwasanaethau a Grwpiau Gwasanaeth yn y Colegau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd W. Mullen-James at baragraff 4.6 o'r adroddiad a oedd yn nodi nad oedd digon o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn ddigon da fel cyfrwng ar gyfer dysgu neu asesu eu cynnydd. Mynegodd y Swyddog Perfformiad Effeithlonrwydd Ysgol: Uwchradd y farn bod angen cynnig

mwy o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ar draws y Bartneriaeth. Esboniodd hefyd bod diffyg hyder mewn sawl achos yn golygu bod llawer o fyfyrwyr yn dewis dysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H.O. Williams, esboniwyd y byddai'n anodd monitro nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith oedd yn mynychu Prifysgol y tu hwnt i'r rhanbarth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J.M. Davies at ddisgwyliadau Estyn o ran bod deilliannau'r adroddiad, sef da, yn troi'n ardderchog, a gofynnodd sut fyddai modd gwneud hyn. Esboniodd y Swyddog Perfformiad Effeithlonrwydd Ysgol: Uwchradd bod Estyn ond yn rhoi dyfarniad, heb gynnig unrhyw arweiniad neu gyfeiriad o ran cyflawni gwelliant pellach. Gwaith y Bartneriaeth fyddai penderfynu sut y byddai'n mynd ati i sicrhau gwelliannau pellach.

Ymatebodd y Swyddog Perfformiad Effeithlonrwydd Ysgol: Uwchradd i gwestiwn gan y Cynghorydd T.R. Hughes esboniodd bod cyfuno Coleg Amaethyddol Llysfasi a Choleg Glannau Dyfrdwy wedi arwain at ddarparu ystod ehangach o gyrsiau i'r cyhoedd. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid at y gynghrair strategol rhwng Llysfasi, Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Llandrillo a oedd wedi gwella lefel y ddarpariaeth gwasanaeth yn Sir Ddinbych.

Er mwyn parhau i symud ymlaen gyda'r gwelliannau sydd eisoes wedi'u sicrhau, awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i'r pwyllgor craffu weld y cynllun gweithredu sy'n manylu ar fesurau ac amserlenni i sicrhau'r gwelliant o Da i Ardderchog. Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi sylwadau Aelodau.*

Gan fod y cyfarfod yn mynd rhagddo yn gynt na'r disgwyl, penderfynodd y Cadeirydd, gyda chaniatâd y Pwyllgor, y dylid newid trefn yr eitemau busnes.

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Craffu, a oedd yn adolygu rhaglen waith y Pwyllgor Craffu Cymunedol i'r dyfodol ac yn diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Roedd blaen-raglen waith drafft y Pwyllgor, Atodiad 1, wedi cael ei hetifeddu o'r cyn-bwyllgor. Gofynnwyd i Aelodau ystyried a oedd y blaen-raglen waith yn adlewyrchu dyheadau a blaenoriaethau'r Pwyllgor newydd. Hysbyswyd aelodau bod manylion y blaen-raglen waith i'r Pwyllgorau Craffu Partneriaethau a Pherfformiad wedi'u cynnwys yn y papurau gwybodaeth a ddosbarthwyd yn flaenorol.

Roedd blaen-raglen waith y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 i'r adroddiad ac roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor, ac yn hysbysu Aelodau ar hynt eu gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Wrth berfformio ei rôl, esboniwyd y gallai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ofyn i Bwyllgorau Craffu unigol ymdrin â thestunau penodol. Yn ei gyfarfod diwethaf yn Ebrill 2012, ni wnaed unrhyw argymhellion penodol mewn perthynas â'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Ystyriodd y Pwyllgor y blaen-raglen waith ddrafft i gyfarfodydd yn y dyfodol fel y manylwyd yn Atodiad 1. Cyfeiriwyd at y materion canlynol:-

Roedd swyddogion wedi cyflwyno ffurflen gynnig gyflawn yn gwneud cais am gynnwys adroddiad ar flaen-raglen waith y Pwyllgor, ac roedd ynghlwm yn Atodiad 2. Roedd y cais hwn ynglŷn â lefelau adnoddau ac egwyddorion ymgysylltiad cymunedol mewn perthynas â phrosiectau seilwaith mawr sy'n effeithio ar y Sir. Roedd Aelodau yn teimlo bod hwn yn fater pwysig a oedd yn haeddu cael ei drafod, ac o'r herwydd, mae'r eitem wedi'i chynnwys ym mlaen-raglen waith y Pwyllgor ar gyfer Gorffennaf 2012.

Roedd Aelodau'n cefnogi awgrym gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid y dylid cyflwyno adroddiad yn manylu ar gynnydd mewn cysylltiad â'r rhaglen fuddsoddi priffyrdd diweddar. Gwnaeth y Cynghorydd J.M. Davies gais am ymestyn yr adroddiad i gynnwys gweledigaeth strategol y Cyngor mewn perthynas â datblygiadau seilwaith cludiant mawr yn Sir Ddinbych. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnwys adroddiad ar gynnydd gyda phriffyrdd yn Sir Ddinbych, gan gynnwys cysylltiadau seilwaith mawr gyda'r Rhwydwaith Briffyrdd, yn y Rhaglen Waith ar gyfer Hydref 2012.

O ystyried y nifer gorau o eitemau agenda i'w cynnwys mewn un cyfarfod, cytunodd yr Aelodau y dylid gohirio'r adroddiadau ar Reolaeth Safleoedd Carafanau a Rheoli dyraniadau Symiau Gohiriedig Adran 106, a oedd i fod i gael eu trafod yng nghyfarfod Gorffennaf 2012.

Ar gais Aelodau, mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith, naill ai fel adroddiadau gwybodaeth neu fel adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried:-

- Cynnal a Chadw a Graeanu yn y Gaeaf
- Torri Gwair
- Trefniadau Cludiant Ysgol
- Rhandiroedd
- Cynlluniau Tref

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J.M. Davies ynghylch arian Amcan 1 ac adeilad ar Ffordd y Brenin, Prestatyn sydd heb ei osod ac sy'n parhau'n wag, cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno adroddiad gwybodaeth ynghylch y mater hwn.

Esboniodd y Cydlynydd Craffu y byddai cyfarfod Medi y Pwyllgor Craffu yn cael ei gynnal yn y Rhyl oherwydd bod tair ffrwd waith yn y rhaglen yn ymwneud â Phrosiect y Rhyl yn Symud Ymlaen. Esboniwyd y gallai'r cyfarfod archwilio materion eraill yn ymwneud â Rhyl, fel y bont feicio newydd, a chynnwys taith o amgylch y safleoedd allweddol.

Ystyriodd y Pwyllgor benodiad Cynrychiolwyr y Pwyllgor ar Grwpiau a Byrddau canlynol y Cyngor:-

Grwpiau Herio Perfformiad Gwasanaeth – roedd Pwyllgorau Craffu wedi cael eu gwahodd i benodi cynrychiolydd i bob Grŵp i weithredu fel cyswllt y Pwyllgor gyda phob gwasanaeth. Penodwyd yr Aelodau canlynol:-

Tai & Datblygiad Cymunedol – Cynghorydd R. Murray
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – Cynghorydd W. Mullen-James
Gwasanaethau Oedolion & Busnes - Cynghorydd R. Murray
Gwasanaethau'r Amgylchedd – Cynghorydd C.H. Williams
Addysg a Chefnogaeth Cwsmeriaid & Addysg – Cynghorydd H. Hilditch-Roberts
Cyfathrebu, Marchnata & Hamdden – Cynghorydd J Welch
Cyllid & Asedau – Cynghorydd T.R. Hughes
Priffyrdd & Seilwaith – Cynghorydd H.O. Williams
Adfywiad – Cynghorydd W. Mullen-James
Cynllunio & Diogelwch Cyhoeddus – Cynghorydd H.O. Williams
Adnoddau Dynol Strategol – Cynghorydd H. Hilditch-Roberts

Cytunodd y Cydlynydd Craffu i gydgysylltu gyda'r Cynghorydd C. Guy-Davies mewn perthynas â Grwpiau Herio Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Chynllunio Busnes a Pherfformiad.

Grŵp Buddsoddi Strategol – penododd yr Aelodau'r Cynghorydd H. Hilditch-Roberts i wasanaethu ar y Grŵp a'r Cynghorydd H.O. Williams fel dirprwy gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp os yw'r Cadeirydd yn methu mynychu'r cyfarfodydd. Byddai'r Grŵp yn cyfarfod yn fisol i ystyried gofynion cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol a cheisiadau am arian cyfalaf a grantiau allanol. Ceir cylch gorchwyl y Grŵp yn Atodiad 6 i'r adroddiad hwn.

Bwrdd Rhaglen Gydweithredu Conwy a Sir Ddinbych – Amlinellodd yr adroddiad aelodaeth a rôl y Bwrdd a cheir copi o gylch gorchwyl y Bwrdd yn Atodiad 7 i'r adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor y dylid penodi'r Cynghorydd W. Mullen-James i wasanaethu fel ei gynrychiolydd ar y Bwrdd.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Craffu Partneriaeth yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*
*(b) y dylid penodi'r Aelodau, fel y nodwyd uchod, i wasanaethu ar bob un o'r Grwpiau Herio Perfformiad Gwasanaeth.*
*(c) y dylid penodi'r Cynghorydd H. Hilditch-Roberts i wasanaethu ar Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor, ac*
*(d) y dylid penodi'r Cynghorydd W. Mullen-James i wasanaethu ar Fwrdd Rhaglen Gydweithredu Conwy a Sir Ddinbych.*

**8 GWASANAETHAU BWS A GOSTYNGIADAU**

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr, sy'n manylu ar y modd caiff gwasanaethau bws eu trefnu, newidiadau i arian o Lywodraeth Cymru i wasanaethau bws a gwasanaethau cysylltiol a'r canlyniadau i'r Cyngor Sir, a mesurau lliniaru arfaethedig wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau i'r cyfarfod. Roedd yr adroddiad hefyd yn dechrau'r broses ymgynghori ar y gostyngiadau potensial mewn gwasanaethau.

Cyflwynodd y Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr yr adroddiad ac esboniodd bod gwasanaethau bws wedi gwella yn Sir Ddinbych yn dilyn cynnydd mewn niferoedd, gyda theithwyr yn teithio am ddim dan drefniadau Cerdyn Cymru i bobl dros 60, a rhai gydag anableddau penodol. Roedd hyn yn adlewyrchu arian Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru ychwanegol i gerbydau newydd, mwy hygyrch a gwelliannau o ran amlder.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y tri chategori o wasanaethu bws yng Nghymru sef gwasanaethau Masnachol, Contract ac Eraill. Ceir crynodeb o statws bob gwasanaeth bws yn Sir Ddinbych yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Mae'r rhwydwaith bws wedi esblygu'n gynyddol dros nifer o flynyddoedd, yn enwedig ers i wasanaethau bws gael eu dadreoleiddio. Mae Sir Ddinbych wedi mwynhau gwasanaeth bws lleol cymharol sefydlog a chynyddol ac mae'r ffactorau sy'n berthnasol i lefel y ddarpariaeth ymhob maes wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Esboniwyd bod y ffynonellau niferus o gefnogaeth i'r ddarpariaeth yn newid ac y byddent i gyd yn cael eu heffeithio gan gyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru, a dderbyniwyd yn rhy hwyr i'w hystyried o fewn proses gosod cyllideb y Cyngor i'r flwyddyn ariannol hon. Byddai'r newidiadau yn cynnwys gostyngiadau yn y Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol (LTSG) o £396,000 i £288,000, dros flwyddyn lawn. Yn dilyn hynny, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig isafswm o dri mis o arian trawsnewidiol, yn cael ei ymestyn o bosibl i chwech neu naw mis hyd yn oed. Byddai'r estyniad yn ddibynnol ar adolygiad gweinidogol strategol, cenedlaethol o ariannu a allai weld newidiadau radical.

Er gwaethaf y newidiadau ariannu potensial i'r dyfodol, hysbyswyd aelodau y byddai ar Sir Ddinbych angen cynllunio ar gyfer y gostyngiad sydd ar fin digwydd yn arian Llywodraeth Cymru i fysiau. Roedd manylion am drefniadau ariannu gwasanaethau bysiau, ac effaith newidiadau Llywodraeth Cymru, wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad, ac roedd newidiadau posibl i'r dyfodol wedi'u hawgrymu a'u hamlinellu yn Atodiad 3. Awgrymodd Swyddogion y byddai angen cadw mewn cof pwysau gwasanaethau am newid i wasanaethau bws a gorwariant cymedrol yn 2011/12. Byddai angen arbedion o tua £145,000 dros flwyddyn gyntaf ar gyllideb 2011/12 cyfunol o £911,000. Teimlwyd y gallai'r rhan fwyaf o'r newidiadau a gynigiwyd brofi i fod yn annymunol ac oherwydd y rhesymau a nodwyd yn Atodiad 3, awgrymwyd y dylid cael ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid yn cynnig atebion eraill posibl a fyddai'n fwy derbyniol ym marn swyddogion. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd unrhyw gynigion i newid neu leihau gwasanaethau sy'n cludo plant ysgol. Rhoddwyd i'r Pwyllgor wybodaeth ynghylch gwasanaethau bws sy'n cludo plant ysgol a theithwyr sy'n talu, ynghyd â manylion yn ymwneud â'r defnydd o docynnau unffordd, tocynnau dydd a thocynnau crwydro.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd J. Butterfield ynghylch darpariaeth gwasanaethau bws i ysbytai i gleifion ac ymwelwyr, gan gyfeirio'n benodol at anawsterau cyrchu Ysbyty Abergele. Esboniodd y Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr bod rhwng 2% a 5% o deithwyr yn genedlaethol yn defnyddio gwasanaethau bws i deithio i ysbytai. Cadarnhaodd bod gwasanaethau yn cael eu darparu i'r holl brif Ysbytai a bydd ymgynghori'n dal i ddigwydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BUHB), a oedd yn adolygu gwasanaethau i gleifion, a'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans gyda golwg ar adnabod gofynion o ran gwasanaeth cludiant i deithwyr. Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Butterfield, cytunwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad gwybodaeth ar Gynllun Peilot Cludiant Iechyd Cymunedol.

Codwyd y materion canlynol a darparwyd ymatebion:-

- Amlinellwyd rôl y Fforwm Defnyddwyr Bysiau gan y Cynghorydd H.Ll.Jones. Mynegodd bryder hefyd ynghylch y gwasanaeth X94 Wrecsam i Bermo a chywirdeb manylion y gwasanaeth 50 Uwch y Dre i Ysgol Caer Drewyn, fel y manylir yn Atodiad 3 i'r adroddiad. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at gytundeb hanesyddol pan sefydlwyd Ysgol Caer Drewyn, a oedd yn caniatáu i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol o ardal Uwch y Dre gael cludiant ysgol am ddim.

- Darparodd y Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr ymatebion i gwestiynau Aelodau ynghylch ymestyniad posibl i wasanaethau yn Nyffryn Dyfrdwy, gwasanaethau i Betws Gwerfil Goch, Parc Busnes Llanelwy a'r gwasanaeth rhif 98 Llangollen i Llantysilio. Esboniodd y byddai modd trafod y materion ariannu a godwyd ynghylch Gwasanaeth Clwydian Ranger gyda Cadwyn Clwyd.

Esboniodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo y byddai'n bwysig bod manylion ynghylch y defnydd o wasanaethau yn cael eu darparu i aelodau'r cyhoedd fel rhan o'r broses ymgynghori. Nododd Aelodau yr angen i ymgynghori gyda thrigolion a theithwyr bws ar y newidiadau arfaethedig a chytunwyd y dylid trefnu Gweithgor i ystyried canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori cyn i adroddiad ar y mesurau arfaethedig i ymdrin â'r gostyngiad o ran ariannu gael ei ystyried gan y Cabinet. Penodwyd y Cynghorwyr P.A. Evans, T.R. Hughes, C.H. Williams a H.O. Williams i wasanaethu ar y Gweithgor. Aeth y Pwyllgor ymlaen hefyd i enwebu ar eilio'r Cynghorydd H. Hilditch-Roberts ar gyfer ei benodi fel Cadeirydd y Fforwm Cludiant Gwledig.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cytuno:-*

*(a) y dylid derbyn yr adroddiad;*
*(b) y dylai swyddogion ymgynghori gyda'r gymuned ehangach ynghylch toriadau potensial i wasanaethau bws ac, fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, y dylid darparu gwybodaeth ar y defnydd o wasanaethau i'r cyhoedd;*
*(c) y dylid trefnu Gweithgor i ystyried y canfyddiadau;*
*(d) y dylai Cyd-bennaeth Priffyrdd & Seilwaith gynhyrchu adroddiad pellach i'r Cabinet, yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad a safbwyntiau'r Gweithgor, ac yn cynnig mesurau penodol, yn unol â'r amserlen sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a'r gyllideb sydd ar gael, a*
*(e)* y dylid penodi'r Cynghorydd H. Hilditch-Roberts yn Gadeirydd y Fforwm Cludiant Gwledig.

9 **EFFEITHIOLRWYDD CAMAU GORFODI – BAW CWN**

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio yn manylu ar effeithiolrwydd gweithredu gorfodol mewn perthynas â baw cwn o fewn Sir Ddinbych, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau i'w cyfarfod.

Dosbarthwyd copïau o Atodiadau yn y cyfarfod, ynghyd â dogfennau yn ymwneud â:-

Gweithgor Parth Cyhoeddus a Throsedd Amgylcheddol a gynhaliwyd ar gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2008 a 26 Ionawr, 2009.
Adroddiad i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd dyddiedig 15 Hydref, 2009.
Llythyr o Gadeirydd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd i'r Prif Gwnstabl dyddiedig 30 Rhagfyr, 2008.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ar ddulliau hanesyddol a chyfredol o rwystro a chanfod baw cwn yn Sir Ddinbych yn ogystal â dulliau i'r dyfodol. O blith pob niwsans cyhoeddus unigol yn Sir Ddinbych, Baw Cwn yw testun y nifer uchaf o gwynion. Roedd y math hwn o drosedd yn cael ei gategoreiddio fel "Trosedd Amgylcheddol", ac yn dod o dan amodau Deddf Gwn 1996 a Deddf Gwarchod yr Amgylchedd a Chymdogaethau Glân 2005. Esboniwyd bod hawl gan weithwyr yr Awdurdod a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog. (FPN).

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio y pwyntiau pwysig hyn o'r adroddiad:-

- cyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog yn hytrach nag erlyn neu weithdrefnau talu ac erlyn.
- bod 'trefn orfodi bendant' wedi'i mabwysiadu gan Wasanaeth Diogelwch Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych ers 2008.
- manylion o Weithgareddau Gorfodi rhwng 2008 a'r dyddiad hwn.
- dulliau a ddefnyddiwyd gan Orfodaeth Diogelwch Cymunedol yn Sir Ddinbych wrth rwystro a chanfod troseddau yn ymwneud â baw cwn.
- meini prawf ar gyfer adnabod cwn strae a manylion y Siartr Mynd â Chwn am Dro.
- y defnydd o gyhoeddusrwydd a chamerâu cylch cyfyng wrth ymchwilio i droseddau.
- diffyg cyfranogiad yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o ran cyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog.
- cyfathrebu gyda'r cyhoedd ac anogaeth a defnyddio disgyblion ysgol i addysgu rhieni a'r cyhoedd mewn perthynas â pheryglon baw cwn.
- ceisiadau i lanhau baw cwn ac archwiliadau i sefydlu'r angen am finiau ac arwyddion.
- cyflogi contractwyr preifat drwy asiantaethau cyflogaeth.
- y casgliadau a luniwyd trwy brofiad o weithio gyda'r broblem o faw cwn.

Gwyliodd y Pwyllgor fideo o astudiaeth achos a gynhaliwyd yn ardal Marine Lake Rhyl a oedd yn tynnu sylw at agweddau ymarferol o'r gwaith a wnaed gan

swyddogion ac effeithiolrwydd gwaith goruchwylio a chasglu tystiolaeth a oedd yn arwain at gyflwyno Hysbysiad Cosb Sefydlog.

Darparodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i faterion a godwyd gan aelodau:

- byddai'r mater o ailosod ac uwchraddio arwyddion baw cwn yn cael sylw.
- cytunwyd i archwilio'r posibilrwydd o drin mannau lle roedd baw cwn wedi cael ei ganfod gyda sylwedd chwistrell priodol.
- cytunodd swyddogion i gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i drafod rhoi mwy o bwyslais ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog fel dull o rwystro a lleihau trosedd.
- rhoddwyd cadarnhad bod Sir Ddinbych wedi cyflogi contractwyr i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog, ond ei bod yn ymddangos fod hyn wedi bod yn fwy effeithiol o ran gorfodaeth sbwriel yn hytrach na baw cwn.
- amlinellwyd manylion o'r gweithio cydweithredol rhwng Conwy a Sir Ddinbych, gyda Sir Ddinbych yn Awdurdod Arweiniol.
- yr angen i ehangu'r fenter sydd ar waith yn Ysgol Bodnant.
- y problemau a'r goblygiadau cyfreithiol allai godi pe rhoddwyd gwaharddiadau ar y defnydd o gaeau chwarae ysgol, a phe byddai gorchmynion rheoli cwn yn cael eu cyflwyno.

Darparodd y swyddogion fanylion ynghylch cyflwyno a dosbarthu bagiau baw cwm mewn mannau allweddol dynodedig. Hysbyswyd aelodau bod darparu biniau baw cwn yn rhan o gylch gwaith Pennaeth yr Amgylchedd a bod materion i'w hystyried o ran casglu gwastraff peryglus. Byddai cwynion ynghylch digwyddiadau o faw cwn yn cael eu derbyn a'u tracio trwy'r System Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (CRM).

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd T.R. Hughes, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r farn bod angen cymryd safiad clir mewn perthynas â'r mater hwn, gan ystyried unrhyw oblygiadau ariannol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Butterfield, bod y wardeniaid yn ardal Gwarchodfa Natur Pwll Brickfields Rhyl yn cael yr hawl i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog, esboniwyd y byddai hyn yn fater i'r swyddogion perthnasol ystyried a chytuno arno.

Gofynnodd Aelodau am wybodaeth bellach ynghylch ystadegau ar nifer y digwyddiadau baw cwn a adroddwyd i'r Tim Glanhau Stryd yn ystod 2011/12, y nifer a lanhawyd o fewn 5 diwrnod i dderbyn y gwyn, y nifer na ymatebwyd iddynt a'r rhesymau pam, a sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu gyda blynyddoedd blaenorol.

Cytunodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cyhoeddus y byddai'r materion canlynol yn cael sylw yn y cyfarfod CSP nesaf:-

- archwilio'r posibiliadau o Swyddogion Gorfodi yn gwisgo crysau polo/siacedi/tabards yn achlysurol a fyddai'n dangos mai swyddogion gorfodi oeddynt, er mwyn gweithredu mesur ataliol i berchnogion cwn sy'n methu â glanhau ar ôl eu cwn.

- adolygu arwyddion mewn ardaloedd ar draws y Sir i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf arnynt.
- Pwysigrwydd sicrhau bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog mewn achosion o faw cwn gan fod hyn yn helpu i gadw ardaloedd yn daclus a glân a lliniaru'r risg o droseddau amgylcheddol eraill ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio at y casgliadau, a'r argymhellion canlynol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:-

- parhau i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog.
- pwyslais i'w roi ar weithgaredd casglu gwybodaeth i gael digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyn ac felly cynnig cosb wahanol sef Hysbysiad Cosb Sefydlog.
- defnyddio camerâu cylch cyfyng dros gyfnod i sicrhau tystiolaeth o droseddu.
- adolygiad o lefel hyfforddi swyddogion i sicrhau bod y sgiliau ymchwiliol mewn perthynas ag adnabod troseddwyr a safonau tystiolaeth yn gwella.
- adolygu'r amodau a gofynion ar gontractwyr a swyddogion gorfodi wrth ddelio'n benodol gyda safonau tystiolaeth ac adnabod troseddwyr.
- rhoi mwy o bwyslais ar addysg mewn ysgolion ac yn y gymuned, gydag aelodau o'r gymuned yn derbyn cyfrifoldeb am weithdrefnau gorfodi.
- rhoi ystyriaeth i'r syniad o greu Siartrau Cerdded â Chwn a Siartrau tebyg gyda'r Awdurdod Lleol, Cymdeithasau Tai, busnesau a grwpiau cyhoeddus.
- gwell cyfathrebu gyda'r cyfryngau er mwyn adrodd ar erlyniadau, cynlluniau a mentrau.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor:-*

*(a) yn derbyn yr adroddiad.*
*(b) yn cefnogi'r argymhellion fel y nodwyd ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.*
*(c) yn gofyn i'r Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol hysbysu cyfarfod nesaf y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) o'r pryderon a godwyd gan Aelodau,*
*(d) yn cefnogi'r farn bod angen mabwysiadu safiad clir ar droseddau baw cwn, gan ystyried unrhyw oblygiadau ariannol; ac*
*(e) y dylid trefnu gweithdy i holl gynghorwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol gyda golwg ar fabwysiadu a datblygu ymagwedd gorfforaethol at ddelio gyda'r broblem o faw cwn yn y sir.*

**10 LLWYBR MYNEDIAD SENGL I DAI (SARTH)**

Roedd copi o adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Prosiect a'r Swyddog Strategaeth Dai, a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gyda'r prosiect cydweithredol Llwybr Mynediad Sengl i Dai (SARTH) ac yn darparu cyfle i'r Pwyllgor ddylanwadu ar gyfeiriad y prosiect yn y dyfodol, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Rheolwr Strategaeth Dai grynodeb o'r adroddiad gan ofyn am farn y Pwyllgor ar y Fframwaith Dyraniadau Cyffredin (CAF) cyn mynd ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus.

Esboniwyd mai prosiect partneriaeth yw SARTH rhwng pob un o'r prif landlordiaid cymdeithasol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r partneriaid yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Cartrefi Conwy, Cymdeithas Dai Clwyd Alyn, Cymdeithas Tai Clwyd, Tai Gogledd Cymru a 'Wales and West Housing'.

Nod cyffredinol y Llwybr Mynediad Sengl i Dai yw darparu llwybr mynediad cyffredin i ystod o opsiynau tai fforddiadwy sy'n dryloyw, yn gyfreithiol, effeithlon a hygyrch i bob rhan o'r gymuned. Roedd pryderon wedi'u mynegi y byddai'n rhaid i'r sawl oedd yn gwneud cais am dai anfon ceisiadau i bum gwahanol restr. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno fframwaith dyraniadau cyffredin drafft. Mae'r drafft â thri phwynt ar ôl sydd angen eu setlo cyn yr ymgynghori.

Roedd crynodeb o elfennau allweddol y CAF wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a manylion pellach yn Atodiad A, gyda gwybodaeth am y prosiect cyffredinol yn Atodiad B.

Dywedodd y Rheolwr Strategaeth Dai wrth y Pwyllgor y byddai sesiwn hyfforddi Aelodau yn cael ei chynnal ar 22 Mehefin 2012, ac amlinellodd y materion i'w trafod a'u hystyried yn nhermau dyrannu tai.

Dywedodd y Cynghorydd T.R. Hughes ei fod yn croesawu ac yn cefnogi'r fenter. Ymatebodd y Rheolwr Strategaeth Dai i gwestiynau gan Aelodau mewn perthynas â:-

- cyflwyno'r adroddiad i 5 Bwrdd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- darparu Tai Fforddiadwy o fewn y Sir.
- tai amaethyddol sydd ar gael o fewn Sir Ddinbych.
- fflatiau un llofft sydd ar gael o fewn y Sir.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, nododd y Cadeirydd y cynnydd a wnaed a'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, a chytunodd y swyddogion y byddent yn darparu'r wybodaeth ychwanegol yr oedd aelodau wedi gofyn amdani trwy'r Cydlynydd Craffu.

***PENDERFYNWYD –*** *nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gyda phrosiect SARTH a'r Fframwaith Dyraniadau Cyffredin drafft.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14, 15 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14, 15 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14, 15 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i:** **Pwyllgor Archwilio Cymunedau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **16 Gorffennaf 2012**

**Aelod Arweiniol** **Yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant**

**Swyddog Arweiniol:** **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes**

**Awdur yr Adroddiad:** **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes**

**Teitl:** **Adolygiad o Wasanaethau dydd yng Ngogledd y Sir**

---

**1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

Mae'r adroddiad hwn ynghylch yr Adolygiad o Wasanaethau Dydd yng ngogledd y Sir.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar yr adolygiad o Wasanaethau Dydd yng Ngogledd y Sir a chynghori Aelodau ar y dewis a ffefrir ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol ynghylch darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Fod Aelodau'n cefnogi ymgynghori'n ffurfiol gyda phob rhanddeiliad perthnasol ynghylch y dewis a ffefrir.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 **Cefndir**

Fel rhan o foderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol, mae angen adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau dydd unigol ar gyfer pobl hŷn ym Mhrestatyn a'r Rhyl er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth a ddarperir yn gyson â'r polisi o ail-alluogi.

Mae yna ddwy ganolfan yn darparu gwasanaethau dydd, Hafan Deg yn y Rhyl a Llys Nant ym Mhrestatyn. Mae'r gyntaf mewn adeilad cymunedol pwrpasol, hawdd mynd iddo sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae'r ail mewn hen gartref preswyl ym Mhrestatyn ond mae wedi symud i ganolfan dros dro yng nghanol y dref. Nid yw mewn adeilad pwrpasol, ac er bod y staff wedi gwneud y gorau gyda'r hyn sydd ar gael, hen swyddfeydd anhygyrch ydyn nhw.

Cafodd adolygiad o'r gwasanaethau ei gomisiynu fis Gorffennaf 2011 a gwnaed nifer o argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys: Dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio ar ymyrraeth ail-alluogi o un ganolfan am gyfnodau penodol i annog annibyniaeth, dylai pobl ddal i dderbyn gwasanaeth sy'n addas i'w anghenion, sydd wedi'u hasesu a hynny mewn man priodol; dylid cryfhau gwaith comisiynu a chontractio er mwyn datblygu'r gwasanaeth dydd. Nodwyd fod angen i'r gwasanaeth arbed £180,000 a chafodd hynny ei gymeradwyo gan Aelodau fel rhan o'r broses cynllunio ariannol tymor canolig.

Fel rhan o gynllunio ariannol ar gyfer 2012 / 13, cafodd y swm sydd i'w arbed ei ostwng i £90,000. Llwyddwyd i arbed £30,000 yn y flwyddyn ariannol hon wrth i un o'r rheolwyr ymddeol ac i'r gwaith rheoli sy'n weddill gael ei aildrefnu. Mae hyn yn gadael £60,000 i'w ganfod o'r cynigion isod ar gyfer 2013 / 14.

4.2 **Ymgynghori hyd yma**

Fel rhan o'r adolygiad, cafodd staff, defnyddwyr a gofalwyr y ddwy ganolfan gyfle i gyfarfod yr adolygydd a chyflwyno eu safbwyntiau eu hunain ar y gwasanaethau a ddarperir. Dangosodd hyn fod y gwasanaethau'n cael eu gwerthfawrogi a bod y staff wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion y bobl sy'n mynychu'r canolfannau. Roedd gofalwyr, yn enwedig, yn pwysleisio pwysigrwydd yr ysbaid y maen nhw'n ei gael drwy'r gwasanaeth.

Trefnodd yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol ddau gyfarfod cyhoeddus fis Hydref 2011 i drafod yr adolygiad o'r gwasanaeth, gydag uwch swyddogion y Cyngor yn bresennol. Roedd yr adborth yn adleisio'r hyn a ddywedodd defnyddwyr a gofalwyr wrth yr adolygydd ond hefyd yn trafod defnydd cymunedol ehangach o adnoddau Hafan Deg a'r cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau eraill ledled y Rhyl a Phrestatyn.

Mae grŵp cyfeiriol o randdeiliaid wedi cyfarfod ddwywaith - unwaith i drafod y dewisiadau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ac unwaith i benderfynu ar yr egwyddorion ar gyfer model gwasanaethau yn y dyfodol. Yr egwyddorion hynny yw:

- Dylai gwasanaethau Awdurdod Lleol sicrhau eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o ychwanegu gwerth wrth ddarparu gwasanaeth - eu bod yn canolbwyntio ar ymyriad am gyfnod penodol i helpu unigolion i gynnal eu lle yn y gymuned mor annibynnol â phosibl. Mae hyn eisoes yn dechrau digwydd mewn gwasanaethau dydd yn ne'r Sir.

- Dylai gofal i bobl hŷn yn y tymor hir ym Mhrestatyn a'r Rhyl sicrhau fod gofal ysbaid ar gael i ofalwyr a bod gweithgareddau cymdeithasol ar gael i unigolion unig. Does dim rhaid i hyn gael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol yn uniongyrchol nac ar ein heiddo.

- Dylid defnyddio Hafan Deg, yr adeilad yn y Rhyl, i'r eithaf er mwyn iddo fod yn gynaliadwy a chynnig darpariaethau cymdeithasol i grwpiau eraill, gan gynnwys tenantiaid War Memorial Court a sefydliadau eraill sy'n defnyddio'r adeilad ar hyn o bryd

4.3 **Y Dewis a Ffefrir ar gyfer Ymgynghori**

- Trafod darpariaethau cymunedol eraill ar gyfer darparu gofal a gofal ysbaid yn y tymor hir ym Mhrestatyn a'r Rhyl, gan gynnwys defnyddio'r sector annibynnol a'r trydydd sector.

- Canolbwyntio gweithgareddau ail-alluogi am gyfnodau penodol ar un safle yn Hafan Deg tra bod trafodaethau ac ymgynghori ar y gweill gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch darpariaeth gymunedol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Sir Ddinbych.

- Datblygu model o godi ffioedd am ddefnydd cymunedol o'r adnoddau yn Hafan Deg a thrafod sut y gellid marchnata hynny tra'n cynnal y gweithgareddau ail-alluogi.

**5. Sylwadau'r Aelod Arweiniol**

Byddai o help pe byddai aelodau unigol a phartïon eraill â diddordeb yn ymuno â ni i drafod ffyrdd eraill, gwell, efallai, o ddarparu gofal dydd a fyddai'n cynnwys gwasanaethau defnyddiol eraill i'r rhai sy'n derbyn ac yn darparu gofal. Mae disgwyl i bawb ohonom fyw'n hirach ac mae'n iawn fod Sir Ddinbych yn chwilio am ffyrdd newydd o ddygymod â hynny. Mae polisïau megis ailalluogi a buddsoddi mewn Gofal Ychwanegol yn dangos i bobl, gan fy nghynnwys i, fod yna ffyrdd eraill o fyw bywydau hirach, iachach. Mae rhai Cynghorwyr eu hunain yn enghreifftiau rhagorol o sut i ddal ati i fyw bywydau buddiol a defnyddiol, gan ddal i weithio'n galed a helpu eraill pan fo cymaint o'u cyfoedion wedi ymddeol.

Rwy'n gobeithio y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn mabwysiadu'r argymhelliad i ddal i ystyried dewisiadau eraill, dyna, yn fy marn i, y ffordd orau ymlaen.

**6. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Byddai'r cynigion yn golygu y byddai gwasanaethau'n dal i gael eu darparu i bobl hŷn mewn ffordd gynaliadwy, ac felly'n lliniaru rhai o'r effeithiau demograffig sy'n effeithio ar y sir.

Mae hefyd yn gyfle i ragor o bobl fanteisio ar gyfleusterau Hafan Deg drwy ei agor i ddefnydd cymunedol ehangach yn ogystal ag annog y sector annibynnol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau.

**7. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yn rhaid cael rhagor o amser i adolygu er mwyn sicrhau y bydd unrhyw newidiadau i wasanaethau'n cael eu rheoli mor sensitif â phosibl. Hefyd, bydd Staff Gwasanaethau Dydd angen rhagor o hyfforddiant ar ailalluogi. Bydd y ddwy agwedd yma'n cael eu rheoli gyda'r adnoddau sydd eisoes ar gael.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Fel y gwelir uchod (eitem 4)

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys arbediad ar gyfer hyn ac mae'n bwysig fod yr adolygiad yn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r gwasanaeth mwyaf addas. Os nad yw'n gallu nodi arbedion, bydd yn rhaid eu cael o fannau eraill yn y gwasanaeth.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid yw'n bosibl bod yn benodol ynghylch risgiau nes y bydd canlyniad yr ymgynghori ffurfiol yn wybyddus, ond gallai'r risgiau gynnwys:

Y risgiau i swyddi presennol yn y gwasanaeth - byddai hyn yn cael ei reoli drwy'r prosesau Adnoddau Dynol arferol.

